Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ar ddydd Mercher 12fed Tachwedd 2003 am 7.00pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Maer), Cyng R. Bellamy (Cadeirydd), Cyng G. Vaughan Jones, Cyng K. Day.

Arall*:* Colette Paterson (Clerc y Dref), R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol)

5892: Ymddiheuriadau : Cyng C. Jenkins, Cyng C. Cooper.

5893: Anfonebau i'w Talu: Cyflwynwyd yr anfonebau canlynol i'w talu:

Llif oleuadau ar gyfer yr Eglwys-yn ôl darlleniad y Swyddog Technegol - £55.81
Gareth Peters Builder- Golchi a thrwsio y Neuadd Sirol yn ôl y dyfynbris - £670.00
Shop Acer – Gyriant Disg Fflopi ar gyfer y Cyfrifiadur – £65.74
Archaeoleg Cambria - £32.40 am argraffu ar gyfer y Tân Gwyllt
Dewis – Cyfieithu Cofnodion Medi 2003 - £137.34
Relm Signs – baneri ar gyfer y Tân Gwyllt - £60.00
Gimblett and Mathias – Peintio'r Neuadd Sirol yn ôl y dyfynbris ynghyd â'r rheiliau - £2778.87
Viking – Deunydd i'r Cyfrifiadur - £62.81
Zurich Municipal – Adnewyddu Premiwm Polisi'r Cyngor Lleol £2417.98 gan gynnwys premiwm ychwanegol o £60.00 er mwyn cynyddu Atebolrwydd Cyhoeddus o £5M i £6M.
Misco – Argraffydd ac Inc 'HP Laser jet Printer & Cartridge' - £156.59
Viking – Dau Gabinet Dur y gellir eu cloi – £307.78
C. S. C. – Goleuadau Llwybr Troed - £86.90
Argymhellwyd talu'r anfonebau hyn. Cynigiwyd gan y Cyng. Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Vaughan Jones.

5894: Canllawiau a argymhellir ar gyfer taliadau Adran 137 : Roedd y Cyng. Bellamy wedi drafftio cynnig gyda chyfres o ganllawiau i'w hystyried pan yn dyrannu nawdd o dan Adran 137. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â dyrannu arian i fudiadau. Teimlwyd yn gryf y dylid ystyried ceisiadau oddi wrth unigolion ar sail haeddiant. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd lleihau'r swm ym Mand A i £20.00 - £150.00 ac i wneud Banc C ar gyfer mudiadau sydd wedi'u lleoli yn Llandeilo yn unig gan symud canghennau lleol o Fudiadau Cenedlaethol i mewn i Fand B.

Y ddogfen sy'n dwyn y teitl 'Canllawiau Arfaethedig Adran 137' i'w newid yn unol â hynny a'i cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w derbyn ac i'w atodi i'r Rheoliadau Ariannol fel 9.3. o dan **Adran 137 – Arian Grant**. Cynigiwyd gan y Cyng. D. A. Jones eiliwyd gan y Cyng. G. Vaughan Jones. Copïau o'r Ddogfen Ddiwygiedig i'w dosbarthu cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn.

5895: Wnaeth y Pwyllgor drafod dyrannu grantiau o dan Adran 137 ymhellach a'r angen i annog derbyn ceisiadau oddi wrth fudiadau mwy lleol.

Hysbysiad i'w osod ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref yn gofyn am geisiadau.

896: Y Rheoliadau Ariannol: Cytunwyd mewn egwyddor ar y Rheoliadau Ariannol a gyflwynwyd gan yr Archwiliwr Mewnol Mr H. Towns. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u seilio ar Reoliadau'r Cyngor Sir ac felly mae angen eu cywreinio er mwyn iddynt fod yn addas i fudiadau llai. Mae'r Cyng. Bellamy a Chlerc y Dref wedi bod trwy'r rheoliadau ac roedd y Cyng. Bellamy wedi awgrymu newidiadau i'w trafod. Treuliwyd ychydig o amser yn ystyried y newidiadau hyn.

Y Rheoliadau Ariannol i'w diwygio yn y modd a drafodwyd. Copïau o'r Rheoliadau Ariannol i'w dosbarthu i aelodau. Mae'r pwyllgor hwn yn argymell bodd y Cyngor yn mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol fel a ddiwygiwyd yn y cyfarfod hwn. Cynigiwyd gan y Cyng. Vaughan Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Day

5897: Rheolau Sefydlog: Mae'n angenrheidiol bod y Rheoliadau Ariannol a fabwysiadir yn cefnogi ac yn gwella ar y Rheolau Sefydlog.

Cyng Bellamy i lunio Rhybudd o Gynnig yn atodi'r Rheoliadau Ariannol i'r Rheolau Sefydlog, gan ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i gyfeirio at y Rheoliadau Ariannol lle'n briodol.

5898: Yr Ymateb gan yr Archwilwyr: Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu llythyr a dderbyniwyd oddi wrth HLB Av Audit yn ymwneud â'r Enillion Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2003. Mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Mewnol a'r PWLB roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Matt Pickett yr Archwiliwr sy'n gyfrifol am Archwiliad y Cyngor Tref gan drafod y ceisiadau am newidiadau i'w gwneud.

Newidiadau i'w gwneud i'r enillion Blynyddol. Ffigwr o dan '31ain Mawrth 2002' eitem 2 i ddarllen £27500. Eitem 10 o dan '31ain Mawrth 2002' ychwanegu'r gair 'restated' mewn perthynas â'r swm sy'n weddill yn y PWLB ar gyfer y flwyddyn 2001 – 2002. Eitem 10 o dan ' 31ain Mawrth 2003' newid y ffigwr i ddarllen £56615 fel y swm sy'n weddill ar fenthyciad PWLB wrth i'r llyfrau gau Mawrth 2003.

Yr Enillion Blynyddol, wedi'u llofnodi, a'u dyddio, gan y Maer a Chlerc y Dref i'w dychwelyd i'r Archwilwyr gyda llythyr yn rhoi esboniad o'r lleihad o 18% yng nghostau staff (Sef, bod y Cyngor heb Glerc am gyfnod o tua 6 mis, a bod y Clerc newydd wedi'i benodi ym mis Ionawr 2003 gyda chynnydd yn yr oriau) gan nodi bod y Taliad Yswiriant ar gyfer y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2002 wedi'i gynnwys yn y Gwariant Cyffredinol.

Cyng. Vaughan Jones wedi gwneud ymholiadau pam fod yr archwiliad wedi'i wneud gan gwmni o Southampton, a pham nad oes cwmni mwy lleol yn ei wneud.
0119

0118

0119

Clerc i wneud ymholiadau i'r rhesymau dros ddefnyddio archwilwyr allanol.

5899: Materion Ariannol Eraill: Ailbenodi Archwiliwr Mewnol.

Mae'r Pwyllgor hwn yn argymell ailbenodi Mr Hugh Towns fel yr Archwiliwr Mewnol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2004. Cynigiwyd gan y Cyng. Vaughan Jones eiliwyd gan y Cyng. Day.

5900: Dywedodd y Maer ei fod yn gobeithio y byddai'r Cyngor yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus fel rhan o'r Archwiliad Treftadaeth a chyfuno hyn gyda lansio'r wefan.

Cynigiodd y Cyng. Jones fod y Cyngor yn rhoi £500.00 i'r naill ochr ar gyfer llogi'r neuadd a darparu lluniaeth ar gyfer y digwyddiad hwn. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Day.

5901: Gwasanaeth Dinesig. Mae'n fwriad gan y Maer i gynnal Gwasanaeth Dinesig eleni.

Cynhelir y gwasanaeth Dinesig ar ddydd Sul 7fed Mawrth 2004 fel rhan o'r gwasanaeth boreol a chynhelir derbyniad bach yn dilyn y gwasanaeth mewn lleoliad ac amser i'w drafod.

5902: Cais am gymorth ariannol oddi wrth Cymdeithas Gymunedol Llandeilo. Y Clerc wedi derbyn llythyr oddi wrth y Gymdeithas Gymunedol yn gofyn am grant o £400.00 i gynorthwyo gyda gwaith y mudiad.

Y cais hwn i'w ystyried o dan Adran 137. Clerc i ofyn am wybodaeth ariannol – mantolen ac ati oddi wrth y Gymdeithas gan anfon y cais ymlaen at gyfarfod nesaf o Adran 137 y Pwyllgor Cyllid.

5903: Cysoniadau Banc Cyfredol:

Cyfrif y Trysorydd

Y balans cysoniadol cyfredol yn ôl y fantolen banc dyddiedig 30ain Hydref 2003 yw £9086.91 gyda chyfanswm y sieciau sydd i'w talu yn £138.70.

Cyfrif Y Rheolwr Arian Busnes:

Y balans cyfredol yn ôl y datganiad banc dyddiedig 27ain Medi 2003 yw £44044.67.

Clerc i drosglwyddo £5000.00 o gyfrif y Trysorydd i gyfrif y Rheolwr Arian Busnes:

Daeth y cyfarfod i ben am 8.21pm.